



Beth mae **Gwerth am Arian** yn ei olygu i ni

Mae United Welsh yn ymrwymedig i sicrhau bod potensial y sawl rydym yn cydweithio â nhw yn cael ei wireddu, ynghyd â gwerth ein buddsoddiad mewn tai a chymunedau.



Rydym yn gweithio i ddarparu ein gwasanaethau'n

effeithlon mewn ffordd amserol a syml heb wastraffu adnoddau ac rydym yn ymwybodol nad yw Gwerth am Arian yn ymwneud ag effeithlonrwydd yn unig; mae'n ymwneud ag effeithiolrwydd hefyd.



Rydym yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio ein

cyfalaf, ein hasedau a'n hadnoddau'n effeithiol mewn dull masnachol lle rydym yn caniatáu i arloesedd ddisgleirio, ac yn sicrhau'r enillion mwyaf o'n buddsoddiadau.



Rydym yn cydnabod bod gwerthfawrogi ein pobl a buddsoddi

ynddynt yn arwain at ganlyniadau ardderchog.

Gwerth drwy arferion gwaith effeithiol

Fel rhan o'n prosiect Data Gwych, gwnaeth staff o'n timau Cymdogaeth a Ffynnu adolygu a diweddarau sut y caiff gwybodaeth ei chofnodi ar ffeiliau tenantiaethau er mwyn iddynt fod yn gyson ac yn haws eu cyrchu a'u darllen.






Gwerth Cymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth Dychwelyd Pwrpasol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhoi cymorth i bobl mewn gwasanaethau eilaidd iechyd meddwl cymhleth, yn ystod y broses bontio a phan fo angen cymorth mewn argyfwng, ac yna yn y gymuned.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i bobl agored iawn i niwed fel dewis amgen yn lle cael cymorth a gofal mewn lleoliad iechyd preswyl.

Eleni, darparodd y gwasanaeth arbedion cost amcangyfrifedig i'r bwrdd iechyd o £838,000. Mae hyn yn cynnwys arbedion cost anuniongyrchol megis costau y tu allan i leoliad nad ydynt yn cael eu gwario mwyach am fod gwely wedi cael ei ryddhau.



Cyfartaledd y sector:
Cyfartaledd y sector yw'r mesur a ddefnyddir yn y dangosyddion Gwerth am Arian yn Datganiadau Ariannol Byd-Eang Cymdeithasau Tai Cymru 2021.

